# SUT I DDEWIS DARPARYDD CWMWL

**Yn eu trefn o gymhlethdod, mae yna, erbyn hyn, dri math o wasanaeth y cwmwl. Meddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS), Llwyfan fel Gwasanaeth (Paas) a Seilwaith fel Gwasanaeth (Iaas). Efallai mai dim ond Meddalwedd fel Gwasanaeth, syml, parod fyddwch chi ei angen i ateb eich holl broblemau. Ond, os byddwch chi angen meddalwedd ansafonol yna efallai y bydd yn rhaid i chi ddatblygu eich rhaglenni eich hunan yn y cwmwl neu ychwanegu at y rhai sydd gennych eisoes dwy ddefnyddio Llwyfan fel Gwasanaeth. Ac os byddwch angen rheolaeth gyflawn, dylech fynd am Seilwaith fel Gwasanaeth. Ond peidiwch ag anghofio y byddwch yn rhoi eich holl systemau cyfrifiadurol a'ch data yng ngofal darparydd gwasanaeth y cwmwl. Efallai bod eu gwasanaethau'n hawdd ei ddefnyddio ond mae'r technolegau'n soffistigedig.**

## DECHRAU ARNI

Darllenwch beth mae'r darparydd cwmwl yn ei gynnig o ran swyddogaethau a rhyngysylltedd gan wneud yn siŵr y byddai'r gwasanaeth yn gwneud popeth yr ydych chi eisiau iddo ei wneud, pa ddyfeisiadau bynnag y bydd eich gweithwyr yn eu defnyddio. Hefyd, cadwch mewn cof pa mor gyflym y mae pethau'n newid yn y byd technoleg – a fydd y darparydd cwmwl yn gallu diwallu eich anghenion yn y dyfodol, rhai pethau, efallai, nad yw'r darparydd erioed wedi clywed amdanyn nhw?

## COSTAU

Mae modelau prisio'r cwmwl yn dibynnu ar y mathau o wasanaeth y byddwch yn ei ddefnyddio.
Gyda Meddalwedd fel Gwasanaeth fe fyddwch, fel arfer, yn talu fesul defnyddiwr, fesul mis, am gael defnyddio meddalwedd neu gasgliad o feddalwedd ar lein. Mae Llwyfan fel Gwasanaeth yn cynnwys offer a chydrannau ar gyfer datblygu rhaglenni arbennig a gellir codi tâl amdanyn nhw fesul defnyddiwr, rhaglen, storfa ddata a throsglwyddo data. Mae Seilwaith fel Gwasanaeth yn cynnwys adnoddau cyfrifiadurol mwy sylfaenol, megis gweinyddion rhithwir, rhwydweithiau, storfa ddata a throsglwyddo data y codir tâl amdanyn nhw fesul uned (e.e Gigabyte) o adnoddau ar sail talu yn ôl y defnydd.

## DIOGELEDD

Mae gwasanaethau'r cwmwl yn denu diddordeb hacwyr. Eich problem chi, nid eich darparydd, yw gwarchod data, felly dylai diogeledd y cwmwl fod yn ystyriaeth allweddol. Dylai darparwyr allu eich sicrhau fod eich data'n cael ei amgryptio ac yn cael ei gadw ar wahân i ddefnyddwyr eraill y cwmwl mewn canolfannau data diogel.

## STORIO A CHADW WRTH GEFN

Gan fod hyd yn oed y systemau gorau'n torri weithiau, dylech wneud yn siŵr fod eich darparydd yn paratoi ar gyfer methiannau ac yn cynnal profion adfer trychineb yn rheolaidd. Holwch sut mae eich data'n cael ei gadw wrth gefn – a yw'n hawdd adfer hen fersiynau o ffeiliau a bod y cyfan wedi'u cadw wrth gefn i'w storio mewn man arall neu oddi ar lein.

## ARGAELEDD Y GWASANAETH

Gall cynnal a chadw wedi'i gynllunio yn ogystal â methiannau yn y gwasanaeth olygu y bydd yna gyfnodau pan nad oes gwasanaeth ar gael. Fel arfer, yn anaml, ac yn ystod oriau 'oddi ar y brig' y ceir cynnal a chadw wedi'i gynllunio ond dylech holi faint o lefel o ddiffyg gwasanaeth y dylech ei ddisgwyl a faint o rybudd fyddech chi'n ei gael.

## ALLWCH CHI GAEL GOLWG AR ARDYSTIAD Y DARPARYDD?

Efallai y bydd gennych chi fwy o hyder mewn darparwyr gwasanaeth y mae eu systemau, eu prosesau a’u rheolaethau wedi'u gwirio gan archwilwyr trydydd parti annibynnol. Os yw diogeledd cwmwl yn arbennig o bwysig i chi, chwiliwch am ryw ffurf o ardystiad ar wefan y darparwyr.

## CAEL EICH SYSTEM A DATA ALLAN

Mae’n bwysig sefydlu o’r dechrau pa mor hawdd y mae’r darparydd gwasanaeth y cwmwl yn ei gwneud hi i fusnesau symud systemau busnes a data i rywle arall neu ei gael ar ffurf y gellir ei ddefnyddio oddi ar lein. Oni bai eich bod yn bwriadu aros gyda’r darparydd ‘er gwaethaf popeth’ – a allai fod yn wir os ydyn nhw’n ddarparydd mawr ac wedi’u hen sefydlu – mi ddylech baratoi strategaeth ymadael.

## AWGRYMIADAU ARDDERCHOG

### *Aros yn ddiogel*

Chwiliwch am wasanaeth sy’n caniatáu i chi roi stop ar gyfrifon defnyddiwr yn gyflym a gwahanu data fel mai dim ond y data y maen nhw ei angen i wneud eu gwaith y mae defnyddwyr yn ei gael. Os yw gwarchod data’n bryder allweddol yna y cyngor yw ystyried dim ond systemau gyda dilysiad aml ffactor e.e. codau caniatâd yn cael eu hanfon i ffonau symudol defnyddwyr i’w defnyddio gyda’u henwau defnyddiwr a’u cyfrineiriau wrth iddyn nhw logio mewn.

### *Costau*

Mae darogan costau IaaS a Pas yn anoddach na SaaS, felly gofynnwch i’ch darparydd am gyfrifiannell cost a sicrhewch ei fod yn caniatáu i chi ddefnyddio mwy neu ddefnyddio llai yn awtomatig pan fydd eich gofynion yn newid.

### *Rheolau gwarchod data*

Yn dibynnu ar eich busnes efallai y bydd angen i chi sicrhau fod eich data’n cael ei gadw yn Ewrop yn unig, er enghraifft, felly os gallai hynny fod yn broblem i chi, holwch ynghylch hynny hefyd.

### *Safonau*

Safonau ymarfer gorau perthnasol y diwydiant yw ITIL ar gyfer rheoli gwasanaeth TG; SSAE 16 ac ISAE ar gyfer adrodd ar reolaethau mewn sefydliadau gwasanaeth; ac ISO 27001 ar gyfer rheoli diogeledd gwybodaeth; ond nid yw safonau penodol i’r cwmwl mor hawdd i'w categoreiddio - ymwelwch â’r Cloud Standards Wiki ar http://cloud-standards.org

### *Chwilio am ardystiad*

Efallai y bydd y darparydd cwmwl rydych yn ei ystyried ar un o’r rhestrau canlynol ond, cofiwch, does dim ‘safon aur’ o ardystiad ar gyfer darparwyr y cwmwl:

- Aelodau Fforwm Diwydiant y Cwmwl – www.cloudindustryforum.org/membership/members
- Cofrestrfa Diogeledd, Ymddiriedaeth a Sicrwydd CSA (STAR) – https://cloudsecurityalliance.org/star
- Rhaglen SkyHigh CloudTrust – www.skyhighnetworks.com/cloud-trust-program
- TRUSTe Trusted Directory – http://www.truste.com/consumer-privacy/trusted-directory

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn.**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Gwnewch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich cynorthwyo i greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes.**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Am fwy o gyngor am Gyflymu Busnesau:

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government